



Defnyddio'r wefan a chwcis

Polisi preifatrwydd a chwcis

Mae'r polisi preifatrwydd hwn yn berthnasol i unrhyw wybodaeth bersonol y byddwch chi yn ei rhoi i ni ("gwybodaeth defnyddiwr") drwy'r wefan sydd i'w gweld yn www.atebgroup.co.uk ("y wefan"). Mae'r polisi hwn wedi'i lunio i'ch helpu i deimlo'n fwy hyderus bod eich manylion personol yn cael eu cadw'n ddiogel ac yn breifat.

Ystyr "chi" fydd chi, defnyddiwr y wefan. Bydd "ni" yn golygu Grŵp ateb Cyfyngedig ac unrhyw un o'i is-gwmnïau. Bydd "defnyddwyr" yn golygu defnyddwyr y wefan gyda'i gilydd a/neu'n unigol, yn ôl y cyd-destun.

Dim ond gan gydymffurfio'n fanwl â'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data a'r ddeddfwriaeth gysylltiedig y byddwn yn prosesu data personol.

Casglu data

Sut y gallem fod yn defnyddio eich data...

Trwy gofnodi eich gwybodaeth defnyddiwr, rydych yn derbyn y byddwn efallai yn cadw eich gwybodaeth defnyddiwr ac y gallai gael ei chadw gennym ni neu unrhyw gwmni trydydd parti sy'n ei phrosesu ar ein rhan.

Bydd hawl gennym ddefnyddio eich gwybodaeth defnyddiwr at y dibenion canlynol:

- Gwneud ymchwil i'r farchnad, sy'n cynnwys cynnal dadansoddiad ystadegol o ymddygiad defnyddwyr, y gallem ei rannu â thrydydd partion ar ffurf ddiennw sydd wedi'i chrynhai.
- Ein galluogi i gydymffurfio ag unrhyw ofynion y mae'n ofynnol yn ôl y gyfraith i ni gydymffurfio â nhw.
- Cyfathrebu'n achlysurol â chi (gan gynnwys trwy e-bost) ynghylch gwasanaethau a digwyddiadau.

Er hwylustod i chi, gallwch dynnu eich caniatâd yn ôl trwy ymateb i'r ddolen gyswllt ar gyfer "datdanysgrifio", sydd mewn negeseuon e-bost a anfonir gennym. Dylech nodi hefyd na fyddwn yn rhannu eich gwybodaeth bersonol â thrydydd partion er mwyn eu galluogi i anfon deunydd marchnata uniongyrchol atoch, heb iddynt gael caniatâd gennych i wneud hynny.

Cwcis

Dylech fod yn ymwybodol y gallai gwybodaeth a data gael eu casglu'n awtomatig trwy ddefnyddio cwcis. Ffeiliau testun bach yw "cwcis", sy'n storio gwybodaeth sylfaenol y gall gwefan ei defnyddio i adnabod pobl sy'n ymweld â'r wefan fwy nag unwaith ac i gofio eich enw, er enghraifft, os ydych wedi ei ddarparu o'r blaen. Gallem ddefnyddio'r cwcis hyn i arsylwi ymddygiad a llunio data sydd wedi'i grynhoi, er mwyn gwella'r wefan, targedu hysbysebion ac asesu effeithiolrwydd cyffredinol hysbysebion o'r fath. Nid yw cwcis yn glynu wrth eich system nac yn niweidio eich ffeiliau. Os nad ydych am i wybodaeth gael ei chasglu trwy ddefnyddio cwcis, ceir proses syml yn y rhan fwyaf o borwyr sy'n caniatáu i chi dderbyn neu wrthod cwcis. Dylech nodi, fodd bynnag, y gallai gwrthod derbyn cwcis effeithio ar wasanaethau a gaiff eu "personoli".

Cadw data a sicrhau ei fod yn ddiogel

Byddwn yn cydymffurfio â'r holl ddeddfwriaeth berthnasol ynghylch diogelu data, o safbwynt hyd y cyfnod y byddwn yn cadw unrhyw wybodaeth y byddwch yn ei rhoi i ni.

Diweddariadau

Mae'n bosibl y byddwn yn newid y polisi preifatrwydd hwn o bryd i'w gilydd, a dylech wirio'r polisi yn rheolaidd. Ystyrir bod y ffaith eich bod yn defnyddio'r wefan yn arwydd eich bod yn derbyn y polisi preifatrwydd sydd mewn grym ar y pryd.

Cysylltu

Dylech anfon unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynghylch y polisi hwn i mydata@atebgroup.co.uk.